**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 24ain Mehefin, 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
Anfonwyd y cyngor eu dymuniadau gorau tuag at Cyng. Arwel Ll Jones sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris(AM), Cyng Nerys Dobson(ND), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO),

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones (DJ) Cyng. John Owen(JO), Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ),
Cyng. Anwen Jones(AJ),
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

Ar gychwyn y cyfarfod cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth, Ysgol Gynradd Llanddoged Mr Gareth Jones ar y diweddariad ar Ffedereiddio Ysgol Llanddoged gydag Ysgol Ysbyty Ifan.
Diolchodd y Cadeirydd i Mr Gareth Jones am ei gyflwyniad graenus iawn.

2. **CADARNHAU'R COFNODION Mai 20fed, 2024**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ND) ac eilwyd gan ( HM).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 CYNNAL A CHADW

Nodwyd y clerc bod y gwaith trwsio y ffyrdd Ffordd Bryn Saith a Allt Salem Llanddoged heb ei gwblhau gan cyngor Conwy.
Y clerc i gysylltu gyda Mr Emyr Jones Adran Priffyrdd Conwy unwaith eto.

3.2 AWDIT CYFRIFON Y CYNGOR - CYLCH TAIR BLYNEDD

Cadarnhaodd y clerc fod Awdit Cymru wedi cael hyd i'r dogfennau a anfonwyd iddynt 3 blynedd yn ol ac y byddent rwan yn gallu cynnal yr archwiliad llawn.

4. **CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Eglurodd y clerc fod yr arwydd i'r maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan wedi cael ei gynyrchu gan 'Sign Workshop Ltd' a bydd yr arwydd yn cael ei anfon allan i'r clerc wythnos yma.

5. **CAE CHWARAE MAENAN**

Derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i'r Cyngor Cymuned dorri'r gwair yng nghae chwarae Maenan.
Cadarnhawyd fod Cyngor Conwy wedi torri'r gwair yn y cae chwarae fel y cytundeb a sefydlwyd rhwng Cyngor Maenan a Chyngor Conwy pan brynwyd y cae chwarae blynyddoedd yn ôl y bydd Cyngor Conwy yn gyfrifol am dorri'r gwair yno.

6. **CYNNAL A CHADW**

6.1 Angen torri'r tyfiant bob ochr i'r ffordd yn gyffordd Tyrpeg I ymuno a'r ffordd Abergele I lawr am Lanrwst.

.

7. **UNRHYW FATER ARALL**

7.1 Y Cyngor wedi derbyn rhagor o gwynion fod aelod o’r cyhoedd yn crwydro ei chi sydd ddim ar dennyn o gwmpas caeau'r pentref a ddim yn glanhau baw cwn ar ei hol.

Cyng Nia Owen wedi cysylltu gyda Swyddogion o’r Cyngor Sir i gael gair gyda’r person yma.